Treftadleoedd: adroddiad gwerthuso blwyddyn 1

15/09/2026

See all updates

Archwiliwch y cynnydd rydym wedi'i wneud a'r hyn rydym wedi'i ddysgu yn ystod blwyddyn gyntaf ein menter strategol.

Atodiad	Maint
PDF Gweld Heritage Places Year One Interim Report.pdf as PDF(2.65 MB)	2.65 MB
PDF Gweld Heritage Places Year Two Interim Report.pdf as PDF(3.18 MB)	3.18 MB
PDF Gweld Heritage Places Year Two Case Study Annex.pdf as PDF(434.05 KB)	434.05 KB

Rydym wedi ymrwymo £200miliwn dros 10 mlynedd i roi hwb i falchder mewn lle, adfywio economïau lleol a chysylltu pobl â'u treftadaeth mewn trefi a dinasoedd ar draws y DU.

Ym mis Hydref 2023, gwnaethom gyhoeddi'r 11 cyntaf o 20 lle yr ydym wedi cynllunio i ganolbwyntio ein hariannu arnynt. Mae gan bob lle anghenion, cyfleoedd a photensial treftadaeth. Hyd yma, rydym wedi buddsoddi bron i £3.8m, o Gastell-nedd Port Talbot i Ogledd-ddwyrain Swydd Lincoln.

Yn ddiweddar, comisiynwyd ERS Research and Consultancy i werthuso blwyddyn gyntaf ein menter strategol Mannau Treftadaeth. Fe wnaethant gyfweld a chynnal gweithdai gyda grantïon a siarad â staff i gynhyrchu'r adroddiad gwerthuso dros dro hwn.

Canfyddiadau allweddol

Nododd yr adroddiad y canlynol:

- Mae'r sail resymegol strategol dros Treftadleoedd yn parhau'n gryf, gyda chynnydd yn cyd-fynd yn dda ag arfer gorau mewn gweithio sy'n seiliedig ar le. Mae'r ymrwymiad 10 mlynedd i fuddsoddi hirdymor yn nodwedd amlwg.
- Mae cyd-destun lleol yn bwysig. Mae amrywiadau o ran capasiti, strategaethau presennol, perthnasoedd â'r Gronfa Treftadaeth a graddfa ddaearyddol wedi arwain at wahanol gyflymderau a dulliau ar draws yr 9 lle.
- Mae ein hyblygrwydd a'n hymagwedd hagored at wahanol fodelau arweinyddiaeth wedi cael eu croesawu. Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn bod y prosesau ymgeisio'n rhy anystwyth, gan greu heriau yn ystod y gwaith datblygu.
- Bu cefnogaeth gan ein timau ymgysylltu'n hanfodol i feithrin perchnogaeth leol ac fe'i gwerthfawrogwyd yn fawr. Ond mae rhai Treftadleoedd wedi nodi bod angen ffiniau cliriach a hwyluso sy'n fwy cyson.
- Mae angen eglurder ynghylch graddfeydd amser, yn enwedig a all prosiectau Treftadleoedd gyrraedd eu nodau ar ôl 2033, pan ddaw'r fenter strategol i ben.

Argymhellion

Mae ERS Research and Consultancy yn awgrymu i ni:

- Gynnal yr ymrwymiad hirdymor o dan Treftadaeth 2033 ac ymwreiddio dysgu mewn mentrau sy'n seiliedig ar leoedd yn y dyfodol.
- Parhau i fuddsoddi mewn datblygu cynhwysol a chydweithredol, gan ennyn diddordeb ystod eang o bartneriaid a chymunedau lleol.
- Monitro cynnydd a modelau cyflwyno prosiect o'r 9 lle cyntaf i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n gweledigaeth tra'n caniatáu hyblygrwydd lleol.
- Cryfhau ystyried seilwaith treftadaeth leol wrth benderfynu ar y swp nesaf o leoedd, gan gynnwys y gallu i gydweithio a mecanweithiau cynnull.
- Adolygu a mireinio'r broses gwneud grantiau i sicrhau ei bod yn cefnogi gwaith sy'n seiliedig ar le yn fwy effeithiol yn ystod y camau datblygu.
- Ystyried ailbroffilio dyraniadau ariannu dros oes y fenter i ystyried galw sy'n is na'r disgwyl yn y cam cynnar.

Y camau nesaf

Mae'r mewnwelediadau a'r argymhellion hyn yn darparu sylfaen gref ar gyfer myfyrio a gwella wrth i ni weithio ar gefnogi'r un ar ddeg Lle Treftadaeth cyntaf. Byddant hefyd yn llywio sut rydym yn adeiladu perthnasoedd â'r lleoliadau nesaf i gael eu hariannu.

Mwy o wybodaeth

Gallwch ddarllen yr adroddiad gwerthuso llawn ar flwyddyn 1 Treftadleoedd yn y PDF sydd ynghlwm wrth y dudalen hon.

Mae Treftadleoedd yn un o fentrau strategol allweddol ein strategaeth Treftadaeth 2033 ac yn cyfrannu at ein gweledigaeth i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.

Ein gwaith ymchwil a gwerthuso

Rydym yn cynnal ymchwil yn rheolaidd i ddarganfod beth sy'n digwydd yn y sector treftadaeth, ac yn gwerthuso ein gwaith i ddeall yn well y newid yr ydym yn ei wneud. Darllen mwy o'n mewnwelediad.

Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...

Treftadleoedd



Rydd erioppu gwerth £200 miliwn ar gyfer Lleoedd Treftadaeth yn rhoi hwb i economïau lleol a



Gofynion cydnabyddiaeth grant Treftadleoedd